



www.furthermaths.org.uk/wales



Astudiaeth
Achos:
Emlyn Williams

Cyfeiriad:
Ysgol Syr Thomas Jones
Pentrefelin, Amlwch,
Ynys Môn
LL68 9TH
Ffôn: **01407 830287**



Atudiaeth Achos:

Myfyriwr – Emlyn Williams

Darpariaeth Mathemateg Bellach:

Rwy'n hoff o fathemateg oherwydd fy mod yn hoffi edrych ar hafaliad neu broblem nad oes gennyf unrhyw syniad sut i'w ddatrys, ac ar ôl gweithio'n galed a'i astudio, mae gallu ei ddeall yn deimlad gwych. Rwyf hefyd yn hoffi os oes rhywbeth mewn mathemateg yn wir, mae'n wir, ac nid yw'n dibynnu ar farn neu gyd-destun neu unrhyw beth arall.

Penderfynais astudio mathemateg ar ddechrau'r chweched dosbarth pan es i i'r coleg ychydig o weithiau i wneud BTEC peirianeg fecanyddol ond penderfynais wneud Mathemateg Bellach yn lle hynny am fy mod yn meddwl y byddai'n fwy o her a byddwn yn ei fwynhau yn fwy, ac y byddai'n fwy buddiol i mi yn y Brifysgol.

Nid oedd gan ein hysgol unrhyw athrawon oedd yn dysgu mathemateg bellach felly daeth athro o FMSP mewn i ddysgu. Roeddwn yn cael 2 awr o wersi Mathemateg Bellach yr wythnos a mynychais ran fwyaf o ddyddiau adolygu FMSP.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Mwynheais astudio Mathemateg Bellach a byddwn yn bendant yn ei argymhell i fyfyrwyr eraill. Roedd astudio Mathemateg Bellach yn golygu llawer o waith caled ac astudio annibynnol i mi ond roedd yn bendant yn werth chweil, a helpodd i mi ddatblygu fy sgiliau datrys problemau ac ymchwil pan oeddwn yn cael trafferth efo cwestiwn. Mae Mathemateg Bellach yn wahanol i fathemateg arferol oherwydd ei

fod yn llawer anoddach, ac mae angen mwy o astudiaeth i ddeall yn llawn yr hyn yr ydych yn ei wneud ym mhob cam wrth ateb cwestiwn. Ond rwy hefyd yn meddwl ei fod yn llawer mwy diddorol na mathemateg arferol.

Cefais A*A*A*A yn fy arholiadau lefel A, gyda A* mewn Mathemateg Bellach.

Byddaf yn mynychu Prifysgol Leeds i astudio Peirianeg Fecanyddol.